

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYDYMFFURFEDD Â'R SAFONAU'R GYMRAEG

2024-25



CYNNWYS

1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir / cyd-destun yr adroddiad	4
TREFNIADAU AROLWG A MONITRO CYDYMFFURFIO	4
3. Materion yn Codi yn Ystod y Cyfnod Adroddiad	6
3.1. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	7
3.2. Safonau Llundio Polisi	9
3.3. Safonau Gweithredu	10
3.4. Cadw cofnodion a materion atodol	12
3.5. Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr	13
3.6. Recriwtio a Swyddi Gwag Newydd Cedwir	17
3.7. Hyfforddiant iaith Gymraeg i weithwyr	18
3.8. Hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth iaith i weithwyr	18
3.9. Cwynion	19
4. Casgliadau ac argymhellion	20

1. Cyflwyniad

Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai yn 2012 o ganlyniad i uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae'n cyflogi oddeutu 1,500 o staff ac yn cyflwyno cyrsiau i tua 21,000 o fyfyrwyr, gan gynnwys dros 1,500 o fyfyrwyr addysg uwch, ar draws Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Nod y Grŵp yw cefnogi economi Gogledd Cymru trwy arfogi pobl leol â'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i sicrhau cystadleurwydd a llwyddiant y rhanbarth. Gellir darllen ein cynllun strategol newydd [yma](#).

Mae Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr ac aelodau'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hybu defnydd a thwf y Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau yn egluro sut y dylai sefydliad ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn unol â gofynion y safonau, dyma gyhoeddi adroddiad blynyddol 2024/25 y Grŵp ar ei weithrediad o'r [Safonau Iaith Gymraeg](#). Mae'r adroddiad yn amlinellu'r modd y bu i'r Grŵp gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Awst 2023 hyd at 31 Gorffennaf 2024.

Mae Polisi Iaith Gymraeg y Grŵp yn amlinellu ein bwriad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i ddysgwyr a'r cyhoedd ac i ehangu'r ystod o addysg uwch, addysg bellach a darpariaeth dysgu'n seiliedig ar waith sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu bwriad y Grŵp i dyfu ein gweithlu dwyieithog drwy'r broses recriwtio a thrwy gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i staff presennol y Grŵp. I gefnogi ein Polisi Iaith Gymraeg, mae gan y Grŵp gynllun gweithredu datblygiad dwyieithog cynhwysfawr sy'n nodi targedau clir a mesuradwy i ddatblygu ymhellach fel sefydliad cwbl ddwyieithog.

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Ionawr 2025

2. Cefndir / cyd-destun yr adroddiad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut y disgwylir i sefydliad ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn unol â gofynion y safonau, dyma gyhoeddiad adroddiad blynyddol 2024/25 y Grŵp ar ei weithrediad o [Safonau'r Gymraeg](#). Mae'r safonau wedi'u rhannu'n bedwar maes:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisïau
- Gweithredu
- Cadw cofnodion

Gellir cael hyd i drefniadau'r Grŵp ar gyfer goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r safonau a hybu a hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg [yma](#).

TREFNIADAU AROLWG A MONITRO CYDYMFFURFIO

Manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno ymholiadau: SafonauCymraeg@qllm.ac.uk

Uwch-swyddog cyfrifol: Angharad Mai Roberts, Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau

Cyfrifoldeb gweithredol Trefniadau dirprwyo: Panel Iaith y Grŵp sy'n goruchwyllo'r Polisi Iaith Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd Panel Iaith ddwywaith y tymor. Bydd cadeirydd y Panel Iaith yn rhaeadru gwybodaeth i gyfarfodydd Tîm Strategol y Grŵp a bydd y Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd a Chydraddoldeb yn adrodd yn ôl i gyfarfodydd y Tîm Rheoli pan fydd angen diweddarau rheolwyr ar unrhyw ddatblygiadau, arfer da, neu unrhyw feysydd / materion sydd angen sylw neu gefnogaeth bellach. Ystyrir bod pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Grŵp, ac mae ymwybyddiaeth o'r safonau yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu a roddir i bob aelod newydd o staff. Ers mis Ionawr 2022, mae staff y Grŵp wedi cael mynediad at adnodd e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg trwy blatfform Moodle y Grŵp. Mae'r cwrs e-ddysgu hwn wedi'i ychwanegu at y rhestr o gyrsiau gorfodol i staff yng nghynllun DPP y Grŵp er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'n Polisi Iaith Gymraeg a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Mae Panel Iaith y Grŵp yn cymeradwyo'r adroddiad hwn. Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Strategol a'r Llywodraethwyr.

Monitro: Ymgwymerir â'r gwaith monitro'n fewnol gan yr adran Datblygu Dwyieithrwydd. Gwneir hyn drwy dulliau siopwr cudd (ymweliadau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, a gwaith pen ddesg e.e. gwirio dogfennau a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol) gyda'r amcan o adnabod arfer dda a'r meysydd sydd angen cefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol. Gwneir y gwaith hwn trwy gydol flwyddyn ac adroddir y canlyniadau a'r

allbynnau i'r Panel Iaith a'r rheolwyr a'r penaethiaid perthnasol. Cymerir camau dilynol pan nodir materion o ddiffyg cydymffurfio.

Yn ogystal, defnyddir canlyniadau gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg ac Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i roi persbectif annibynnol, i nodi arfer da a meysydd i'w gwella.

Mae trefn gwyno'r Grŵp i'w gweld ar ein [gwefan](#), sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

3. Materion yn Codi yn Ystod y Cyfnod Adroddiad

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn falch o fod yn sefydliad cwbl ddwyieithog sy'n anelu at y lefel uchaf o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae Grŵp Llandrillo Menai wedi parhau i dyfu ei wasanaethau a'i ddarpariaeth ddwyieithog, ac wedi datblygu ffyrdd newydd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae rhai llwyddiannau a welwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Penodi pedwerydd hwylusydd y Gymraeg (dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) i weithio ag adrannau diwydiannau creadigol a busnes yng Ngholeg Llandrillo er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael bob cyfle posib i gyflwyno'u gwaith yn Gymraeg a chael cefnogaeth briodol i weithio drwy'r Gymraeg
- 14 o ddosbarthiadau Cymraeg Gwaith ar draws y gwahanol lefelau Cymraeg i staff gyda 72 aelod o staff yn mynychu'r dosbarthiadau
- Cynnig cyrsiau Cymraeg dwys ar lefel Mynediad i staff am y tro cyntaf, gyda 4 dysgwr yn sefyll arholiad Mynediad CBAC mis Mehefin 2024.
- Adolygu a chryfhau polisi iaith Gymraeg y Grŵp
- 95% o staff wedi rhoi gwybod i ni beth yw eu sgiliau iaith Gymraeg ar ein system adnoddau dynol mewnol (fyny o 91% y llynedd)
- 12 o staff wedi derbyn gwobrau Cymraeg am eu hymdrechion i ddysgu'r iaith neu am hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu hadrannau

3.1. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Isod ceir crynodeb o sut y gwnaeth y Grŵp gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024:

Ardal	Safon Rhif	(Rhagfyr 2023)
Gohebiaeth (llythyrau, ymholiadau ac ati)	1-7	<p>Arfer y Grŵp yw gohebu yn ddwyieithog yn gyffredinol.</p> <p>Mae gan y Grŵp adran gyfieithu fewnol. Mae unrhyw ohebiaeth, neu ddogfennau cyhoeddus, yn cael eu cyfieithu a/neu eu prawf ddarllen gan aelod o'r tîm cyfieithu er mwyn sicrhau cywirdeb iaith.</p> <p>Yr arfer yw ymateb i bob gohebiaeth Cymraeg yn yr iaith honno (oni bai bod y person wedi datgan nad oes angen ateb yn Gymraeg). Yr arfer yw sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.</p> <p>Cedwir cofnod o ddewis iaith pob dysgwr a phrentis cofrestredig ar systemau TGCh y Grŵp.</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>
Galwadau ffôn a gwasanaeth derbynfya	8-22 65-72	<p>Mae holl staff y dderbynfa yn cyfarch yn ddwyieithog wrth ateb galwad ar brif rif ffôn (neu un o'r prif rifau ffôn), neu unrhyw rifau llinell gymorth neu ganolfan alwadau. Mae'r prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb ffôn yn chwarae neges awtomatig ddwyieithog i ddweud y gellir gadael neges yn Gymraeg. Mae trefniadau mewn lle yn Y Rhyl ac Abergele i drosglwyddo ymholiad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Nid oes angen trefniant tebyg yn CM a CMD.</p> <p>Mae staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn holl dderbynfeydd campysau'r Grŵp. Mae staff dwyieithog yn gwisgo cortyn gwddf 'Cymraeg' y Grŵp i gyfleu i ymwelwyr eu bod yn siarad Cymraeg ac yn gallu cynnig gwasanaeth derbynfya yn Gymraeg. Arddangosir arwyddion yn y dderbynfeydd yn croesawu unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Cynigir gwersi Cymraeg i staff dderbynfeydd nad ydynt yn gwbl rugl, neu sy'n ddihyder, er mwyn datblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach.</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>
Cyfarfodydd	24-36	<p>Mae staff y Grŵp wedi derbyn arweiniad a hyfforddiant ar yr angen i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg wrth wahodd personau i gyfarfodydd . Cynigir hyfforddiant diweddarau yn rheolaidd fel rhan o'n cynllun DPP yn ogystal ag anwythiad i staff newydd sy'n cynnwys hyfforddiant ar ofynion safonau'r Gymraeg arnom ni fel sefydliad.</p>
Cyhoeddusrwydd a marchnata, dogfennau a ffurflenni	37-38 43-54 73-79	<p>Mae'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a marchnata a gynhyrchir, a'r holl ddeunydd a arddangosir yn gyhoeddus gan y Grŵp, yn cael eu cynhyrchu/arddangos yn ddwyieithog.</p>

		<p>Mae dogfennau a deunyddiau marchnata yn cael eu cyfieithu a/neu eu prawf ddarllen gan aelod o'r tîm cyfieithu i sicrhau cywirdeb iaith.</p> <p>Mae unrhyw beth a gynhyrchir yn gorfforaethol (prosbectysau ac ati) yn dynodi ein bod yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>
Digwyddiadau cyhoeddus	40-42	<p>Cynhyrchir yr holl wybodaeth mewn perthynas â seremonïau graddio a gwobrwyo yn ddwyieithog. Gwahoddir siaradwyr gwadd i siarad yn Gymraeg a darperir cyfieithu ar y pryd pan wneir areithiau a chyflwyniadau yn Gymraeg.</p>
Presenoldeb ar-lein	55-64	<p>Mae gwefan y Grŵp yn gwbl ddwyieithog gyda'r opsiwn i ddewis iaith wrth agor y wefan. Gall unigolion newid o fersiwn Cymraeg i fersiwn Saesneg trwy ddewis iaith ar dop y dudalen yn ôl yr angen. Mae'r tîm marchnata yn gwirio'r wefan o bryd i'w gilydd i sicrhau nad oes mwy anghysondeb yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae gwefan y Grŵp hefyd yn cael ei monitro fel rhan o'n awdit mewnol.</p> <p>Cyhoeddir pob neges yn ddwyieithog ar holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol swyddogol y Grŵp.</p> <p>Mae'r adran farchnata wedi datblygu canllawiau ar gyfer staff marchnata o ran cyfieithu postiadau cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Os byddai unrhyw bostiad neu erthygl Cymraeg yn anghywir, caiff y rhain eu diwygio ar unwaith a'u cofnodi ar daenlen a gedwir gan y rheolwr llinell. Os bydd aelod o'r tîm yn parhau i wneud camgymeriadau, yna darperir hyfforddiant.</p> <p>Mae adran cyfieithu fewnol y Grŵp wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ysgrifennu Cymraeg ar gyfer y we a chyfryngau cymdeithasol yn ystod 2023/24.</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>
Caffael	80-84	<p>Cyhoeddir gwahoddiadau i dendro yn Gymraeg lle mae testun y cytundeb yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.</p> <p>Cyhoeddwyd 0 tendr yn Gymraeg 2023/24 a 0 ymateb tendro yn yr un cyfnod. Fodd bynnag, pe bai cyd-destun y tendr yn gofyn neu'n disgwyl y Gymraeg, yna byddai'r Tendr yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg.</p> <p>Mae hyn yn rhywbeth y mae Caffael wedi ymrwymo iddo ac wedi'i ddangos mewn blynyddoedd blaenorol.</p>
Hyrwyddo'r Gymraeg	85-87	<p>Mae dysgwyr yn y Grŵp yn cael gwybod am eu hawliau o dan safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod cynefino ac yn ystod sesiynau tiwtorial. Mae'r Grŵp hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' a'r 'Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg' blynyddol gyda gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar draws pob campws.</p> <p>Ymgymerir â holl weithgareddau hyrwyddo'r Grŵp yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ddwyieithog.</p>

Dysgwyr a chyfleoedd dysgu	88-93	<p>Mae dysgwyr yn y Grŵp yn cael gwybod am eu hawliau o dan safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod cynefino ac yn ystod sesiynau tiwtorial. Mae'r Grŵp hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' a'r 'Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg' blynyddol gyda gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar draws pob campws.</p> <p>Mae gan ddysgwyr hefyd fynediad at wefan 'Cefnogaeth gyda'r Gymraeg', a ddatblygwyd yn fewnol, sy'n darparu gwybodaeth am eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, a dolenni i offer ac adnoddau defnyddiol.</p> <p>Mae swyddogion cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Grŵp yn hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgil ymhlith dysgwyr, ac yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau i roi ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol.</p> <p>Mae pedwar Hwylusydd y Gymraeg wedi'u cyflogi i gefnogi pedwar maes rhaglen blaenoriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, fel y ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (Coleg Llandrillo)- hyd at Orffennaf 2024 • Gwasanaethau Cyhoeddus (Coleg Llandrillo) a Gofal Anifeiliaid (Glynllifon)- hyd at Orffennaf 2024 • Iechyd & Gofal Cymdeithasol (Coleg Llandrillo, Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle)- hyd at Orffennaf 2024 • Diwydiannau Creadigol a Busnes (Coleg Llandrillo)- hyd at Orffennaf 2024
----------------------------	-------	--

3.2. Safonau Llunio Polisi

Isod ceir crynodeb o sut y gwnaeth y Grŵp gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024:

Maes	Rhif Safonol	(Rhagfyr 2023)
Llunio polisi neu addasu polisi presennol	94-104	<p>Mae pob polisi newydd a phob polisi sy'n cael ei addasu yn cael ei asesu ar gyfer effaith ar y Gymraeg. Lle bo angen, caiff polisiâu eu dychwelyd at y sawl a'u creodd os oes angen diwygiadau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Panel Iaith yn craffu ar bob asesiad effaith ar y Gymraeg ar bolisiau.</p> <p>Mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol yn ystyried newidiadau i gyrsiau neu gyflwyno cyrsiau newydd. Fel rhan o'r broses honno ystyrir yr effaith ar y Gymraeg.</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>

3.3. Safonau Gweithredu

Isod ceir crynodeb o sut y cydymffurfiodd y Grŵp â'r Safonau Gweithredu rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024:

Ardal	Safon Dim	Diweddariad (Rhagfyr 2023)
Polisi Iaith Gymraeg	105	Mae gan y Grŵp Bolisi Iaith Gymraeg (diweddarwyd diwethaf Mehefin 2023) a Gweithdrefn Weithredol ar y Gymraeg a Dwyieithrwydd sy'n cyd-fynd â hi. Mae'r ddwy ddogfen ar gael i staff drwy Borth y Grŵp.
Gweithwyr	106-111 119-126 134 141-144	<p>Mae system AD y Grŵp (MyView) yn galluogi staff i ddatgan eu sgiliau Cymraeg eu hunain a chofnodi eu dewis iaith gyfathrebu. Mae rhyngwyneb 'MyView' ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gall staff ddewis pa iaith i'w defnyddio pan fyddant yn mewngofnodi i'r system. Defnyddir system MyView i gofnodi gwyliau blynyddol, absenoldebau, TOIL, adolygu perfformiad, ac mae'n darparu mynediad at slipiau cyflog a P60; gellir gweld pob un ohonynt yn Gymraeg os dewisir y Gymraeg wrth fewngofnodi.</p> <p>Mae'r system wedi cael ei ddiweddarau fel bod llythrennau sy'n cynnwys to bach yn arddangos yn gywir (gan nad oedd hyn yn digwydd gynt).</p> <p>Mae'r holl wasanaethau, prosesau a dogfennaeth sy'n ymwneud â chyflogi staff ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Darperir pob aelod o staff sy'n ddwyieithog gyda laniard 'Cymraeg' y Grŵp a disgwylir i bob aelod o staff wisgo'r laniard tra yn eu gwaith.</p> <p>Mae'r staff hynny nad ydynt yn rhugl yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod eu horiau gwaith, neu i ymgymryd â chwrs dysgu Cymraeg hunan-astudio. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, dechreuodd cwrs dysgu Cymraeg dwys (5 awr yr wythnos) ar lefel Mynediad.. Mae cyfleoedd eraill, anffurfiol, i ymarfer a datblygu sgiliau Cymraeg hefyd yn cael eu cynnig i staff, gan gynnwys 'Dros Baned' (sgwrs dros baned o de/cinio), a 'Bydis Cymraeg' (lle maent yn cael eu paru â siaradwr Cymraeg rhugl ac yn cyfarfod yn rheolaidd am sgwrs).</p> <p>Cwrs Cymraeg Dwys i Staff</p> <p>Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig cwrs dysgu Cymraeg dwys i staff. Mae hyn yn golygu gall staff fynychu gwersi Cymraeg am 5 awr yr wythnos, yn lle'r 2 awr sy'n arferol. Mae'r cwrs hwn yn cael ei gynnig fel rhan o'n polisi recriwtio newydd a gofynnir i'r adran Adnoddau Dynol cyfeirio aelodau staff newydd, sydd gydag un lefel o Gymraeg yn is na'r hyn sydd yn y swydd disgrifiad, at ein tiwtoriaid iaith.</p>
Meddalwedd cyfrifiadurol a Systemau Ar-lein	127-133	<p>Mae gan bob aelod o staff fynediad i feddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae holl beiriannau rhwydwaith y coleg yn cynnwys pecyn Cysgliad • Mae pawb sydd wedi cael offer gan y Grŵp i weithio gartref wedi derbyn offer sy'n cynnwys pecyn Cysgliad

		<ul style="list-style-type: none"> Mae staff a dysgwyr wedi derbyn gwybodaeth ar sut i lawr lwytho pecyn Cysgliad am ddim ar gyfer offer personol <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>
Hyfforddiant ar gyfer staff	135-140	<p>Mae'r holl staff yn cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, o ddechreuwr hyd at lefel hyfedredd. Mae gan staff y dewis o fynychu gwrs 2 awr wythnosol gyda thiwtor Cymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith arferol, neu gwblhau cwrs hunan-astudio ar-lein. Mae'r Grŵp hefyd, bellach, yn cynnig cyrsiau Cymraeg dwys i staff. Mae'r cwrs yma'n cael ei gynnig yn bennaf i staff newydd er mwyn gwella eu Cymraeg mor gyflym ag sy'n bosib er mwyn diwallu anghenion y swydd, ond mae hefyd ar gael i staff presennol y Grŵp (gyda chytundeb eu rheolwr llinell).</p> <p>Mae'r Grŵp hefyd yn cynnig rhaglen DPP gynhwysfawr i staff. Mae llawer o gyrsiau a gynigir ac a gyflwynir ar gael yn Gymraeg/dwyieithog. Lle cyflwynir cyrsiau a restrir yn yr hysbysiad cydymffurfio, bydd opsiwn Cymraeg/dwyieithog ar gael i staff.</p> <p>Cynhaliwyd 2 sesiwn hyfforddi i staff dysgu ac asesu ar ein hadnodd Seren Iaith mis Mehefin 2024. Bwriad y sesiynau hyfforddi hyn oedd rhoi diweddariad i staff ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i fewnosod y Gymraeg i'w sesiynau dysgu ac addysgu ac i annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr y Grŵp. Mynychodd 24 aelod o staff y sesiynau.</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>
Swyddi gweigion a phenodi staff newydd	145-149	<p>Mae gofynion sgiliau iaith Gymraeg swyddi newydd a gwag yn cael eu hasesu a cheir manylion yn y disgrifiad swydd. Mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg ac mae'r Grŵp yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg. Mae ffurflen gais swyddi'r Grŵp yn gofyn i ymgeiswyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesu. Ar adegau pan fo'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg a bod aelodau'r panel cyfweild yn ddi-Gymraeg, defnyddir cyfieithu ar y pryd.</p> <p>Mae gwaith adolygu'r dull o wneud cais am swydd yn parhau, wrth i'r Grŵp symud i broses ymgeisio ar-lein. Bydd y ffurflen gais ar-lein newydd ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Mae'r Grŵp hefyd wedi adolygu ei bolisi recriwtio, gan edrych yn benodol ar ofynion sgiliau iaith Gymraeg pob swydd newydd er mwyn cryfhau ymrwymiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog. I gefnogi gweithrediad y polisi recriwtio newydd, mae cwrs Cymraeg dwys newydd i staff hefyd wedi ei sefydlu, a chyfeirir staff at y cwrs dwys yn y cyfnod recriwtio os oes angen iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p>
Arwyddion	150-152	<p>Mae'r holl ddeunydd swyddogol ar waliau'r coleg yn ddwyieithog</p> <p>Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2023-24 yn Atodiad 1.</p>

3.4. Cadw cofnodion a materion atodol

Isod ceir crynodeb o sut y cydymffurfiodd y Grŵp â'r Safonau Cadw Cofnodion rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024:

Ardal	Safon Dim	Diweddariad (Rhagfyr 2023)
Cadw cofnodion - cwynion	154 - 156 164, 170 176	Mae pob cwyn a dderbynnir yn cael eu rheoli gan Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth y Grŵp. Cofnodir manylion pob cwyn, ymchwiliad dilynol a chanfyddiadau.
Cofnodion - gweithwyr	158-162	Mae adran Adnoddau Dynol y Grŵp yn rheoli'r holl gofnodion sy'n ymwneud â staff a recriwtio. Gall staff hunan-ddatgan eu sgiliau Cymraeg drwy 'My View', ein porth AD. Ers mis Medi 2022 mae staff yn gallu cwblhau 'Gwiriwr Lefelau' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i asesu eu sgiliau Cymraeg os dymunant. Ers Medi 2022, mae'r 'Gwiriwr Lefelau' yn orfodol i bob aelod newydd o staff a gaiff ei recriwtio gydag amod cyflogaeth i ddysgu Cymraeg.
Cofnodi ac adrodd	157 163 165-169 171-175 177-182	<p>Mae'r tîm Datblygu Dwyieithrwydd, sy'n adrodd i'r Panel Iaith, yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth a darparu cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant i staff yn ôl yr angen. Cynhelir awdit mewnol o gydymffurfiaeth yn flynyddol a chynhelir hapwiriadau rheolaidd i wirio cydymffurfiaeth, gydag unrhyw faterion sy'n codi yn cael eu hadrodd i'r Panel Iaith a'r rheolwyr perthnasol.</p> <p>Yn dilyn yr awdit blynyddol, creir cynllun gweithredu / datblygu ansawdd sy'n cael ei fonitro gan y Panel Iaith.</p>

3.5. Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr

Mae'r tablau isod yn amlinellu'r wybodaeth sydd gan y Grŵp am sgiliau iaith Gymraeg ei staff:

Ysgrifenedig	Gwasanaethau Academaidd						Gwasanaethau Corfforaethol						Grŵp					
	2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22	
Rhugl B2/C1	138	37%	148	38.9%	139	39.6%	44	30%	49	31.0%	44	29.1%	563	36%	656	36.1%	544	35.2%
Canolradd B1	39	11%	37	9.7%	27	7.7%	12	8%	14	8.9%	11	7.3%	165	11%	178	9.8%	137	8.9%
Sylfaenol A2	102	28%	95	25.0%	85	24.2%	38	26%	36	22.8%	36	23.8%	386	25%	449	24.7%	367	23.7%
Mynediad A1	9	2%	-	-	-	-	7	5%	-	-	-	-	56	4%	-	-	-	-
Cwrteisi leithyddol	63	17%	-	-	-	-	41	28%	-	-	-	-	301	19%	-	-	-	-
Dim Cymraeg	-	-	71	18.7%	65	18.5%	-	-	46	29.1%	48	31.8%	-	-	376	20.7%	331	21.4%
Anhysbys	19	5%	29	7.6%	35	10.0%	4	3%	13	8.2%	12	7.9%	80	5%	160	8.8%	168	10.9%

Dealltwriaeth	Gwasanaethau Academaidd						Gwasanaethau Corfforaethol						Grŵp					
	2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22	
Rhugl B2/C1	153	41%	163	42.9%	156	44.4%	53	36%	62	39.2%	54	35.8%	671	43%	760	41.8%	636	41.1%
Canolradd B1	49	13%	41	10.8%	31	8.8%	10	7%	11	7.0%	10	6.6%	170	11%	196	10.8%	148	9.6%
Sylfaenol A2	101	27%	106	27.9%	92	26.2%	48	33%	44	27.8%	47	31.1%	385	25%	471	25.9%	395	25.5%
Mynediad A1	9	2%	-	-	-	-	5	3%	-	-	-	-	58	4%	-	-	-	-
Cwrteisi leithyddol	41	11%					26	18%					188	12%				
Dim Cymraeg	-	-	43	11.3%	39	11.1%	-	-	30	19.0%	31	20.5%	-	-	236	13.0%	205	13.3%
Anhysbys	17	5%	27	7.1%	33	9.4%	4	3%	11	7.0%	9	6.0%	79	5%	156	8.6%	163	10.5%

Siarad	Gwasanaethau Academaidd						Gwasanaethau Corfforaethol						Grŵp					
	2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22	
Rhugl B2/C1	145	39%	156	41.1%	151	43.0%	51	35%	58	36.7%	50	33.1%	637	41%	733	40.3%	618	39.9%
Canolradd B1	37	10%	31	8.2%	23	6.6%	10	7%	12	7.6%	11	7.3%	145	9%	157	8.6%	117	7.6%
Sylfaenol A2	109	29%	110	28.9%	95	27.1%	40	27%	36	22.8%	36	23.8%	393	25%	476	26.2%	391	25.3%
Mynediad A1	11	3%	-	-	-	-	6	4%	-	-	-	-	60	4%	-	-	-	-
Cwrteisi leithyddol	48	13%	-	-	-	-	35	24%	-	-	-	-	235	15%	-	-	-	-
Dim Cymraeg	-	-	53	13.9%	46	13.1%	-	-	39	24.7%	42	27.8%	-	-	292	16.1%	252	16.3%
Anhysbys	20	5%	30	7.9%	36	10.3%	4	3%	13	8.2%	12	7.9%	81	3%	161	8.9%	169	10.9%
	370		380		351		146		158		151		1551		1819		1547	

Ysgrifenedig	Busnes@						Coleg Llandrillo						Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor					
	2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22	
Rhugl B2/C1	109	42%	119	42.2%	99	40.4%	34	10%	37	10.8%	43	11.3%	236	55%	246	51.9%	216	52.2%
Canolradd B1	34	13%	34	12.1%	29	11.8%	29	9%	29	8.5%	27	7.1%	51	12%	49	10.3%	43	10.4%
Sylfaenol A2	59	23%	65	23.0%	48	19.6%	121	36%	131	38.2%	135	35.3%	65	15%	75	15.8%	62	15.0%
Mynediad A1	5	2%	-	-	-	-	16	5%	-	-	-	-	19	4%	-	-	-	-
Cwrteisi leithyddol	47	18%	-	-	-	-	116	34%	-	-	-	-	34	8%	-	-	-	-
Dim Cymraeg	-	-	56	19.9%	51	20.8%	-	-	113	32.9%	136	35.6%	-	-	43	9.1%	31	7.5%
Anhysbys	5	2%	8	2.8%	18	7.3%	24	7%	33	9.6%	41	10.7%	28	6%	61	12.9%	62	15.0%

Dealltwriaeth	Busnes@						Coleg Llandrillo						Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor					
	2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22	
Rhugl B2/C1	135	52%	142	50.4%	117	47.8%	47	14%	48	14.0%	56	14.7%	281	65%	276	58.2%	250	60.4%
Canolradd B1	31	12%	30	10.6%	27	11.0%	43	13%	46	13.4%	44	11.5%	37	9%	49	10.3%	36	8.7%
Sylfaenol A2	55	21%	68	24.1%	57	23.3%	131	39%	147	42.9%	152	39.8%	49	11%	64	13.5%	46	11.1%
Mynediad A1	8	3%	-	-	-	-	20	6%	-	-	-	-	16	4%	-	-	-	-
Cwrteisi leithyddol	24	9%	-	-	-	-	75	22%	-	-	-	-	22	5%	-	-	-	-

Dim Cymraeg	-	-	34	12.1%	26	10.6%	-	-	69	20.1%	89	23.3%	-	-	24	5.1%	20	4.8%
Anhysbys	6	2%	8	2.8%	18	7.3%	24	7%	33	9.6%	41	10.7%	28	6%	61	12.9%	62	15.0%
Siarad	Busnes@						Coleg Llandrillo						Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor					
	2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22		2023-24		2022-23		2021-22	
Rhugl B2/C1	127	49%	136	48.2%	116	47.3%	45	13%	47	13.7%	55	14.4%	267	62%	270	57.0%	243	58.7%
Canolradd B1	29	11%	27	9.6%	19	7.8%	29	9%	31	9.0%	28	7.3%	40	9%	40	8.4%	36	8.7%
Sylfaenol A2	64	25%	74	26.2%	62	25.3%	124	36%	141	41.1%	148	38.7%	55	13%	70	14.8%	49	11.8%
Mynediad A1	5	2%	-	-	-	-	20	6%	-	-	-	-	18	4%	-	-	-	-
Cwrteisi leithyddol	29	11%	-	-	-	-	98	29%	-	-	-	-	25	6%	-	-	-	-
Dim Cymraeg	-	-	37	13.1%	30	12.2%	-	-	91	26.5%	110	28.8%	-	-	33	7.0%	24	5.8%
Anhysbys	5	2%	8	2.8%	18	7.3%	24	7%	33	9.6%	41	10.7%	28	6%	61	12.9%	62	15.0%
Cyfanswm	259		282		245		340		343		382		433		474		414	

Fel y gwelwyd yn y tablau uchod, mae newid wedi bod yn nhrefn adrodd ar sgiliau iaith staff y Grŵp yn ystod 2023/24. Newidiodd ein systemau Adnoddau Dynol i ofyn i staff adrodd ar eu sgiliau iaith fel y ganlyn- Rhugl, Canolradd, Sylfaen, Mynediad neu Gwrteisi leithyddol. Cytunwyd ar y labeli hyn er mwyn cyd fynd â lefelau iaith ein polisi recriwtio a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ers ein polisi recriwtio newydd ddod i rym, dydy'r Grŵp bellach ddim yn hysbysebu swyddi neu'n gofyn i unigolion adrodd 'Dim Cymraeg'. Yn hytrach, rydym wedi'i gategoreiddio'n 'Cwrteisi ieithyddol'. Mae'r labelau hyn yn galluogi rheolwyr i adnabod unigolion sydd â sgiliau iaith yn is na'r swydd disgrifiad yn hawdd ac yna, yn ein galluogi i adnabod cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn 2023/24, ar gyfartaledd, mae 626 neu 40% (gostyngiad mewn nifer o 90 ers 2022/23, ond nid mewn %,) o weithwyr y Grŵp yn nodi eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (ar draws y tri sgil). Dywedodd 241, neu 16% (cynnydd o 262, 16% o 2021/22) o'r staff bod ganddynt sgiliau Cymraeg ar lefel Cwrteisi leithyddol. Cesglir sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr y Grŵp ar ein system adnoddau dynol mewnol (MyView). Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ddiweddarau'r adran berthnasol ar eu proffil personol. Mae nifer y staff sydd heb gwblhau'r adran hon wedi codi ychydig gyda 12% o staff heb gwblhau'r adran hon yn ystod 2023/24 i gymharu â 9% yn 2022/23. Mae'r gofyniad i lenwi'r ffurflen hon yn parhau i gael ei gynnwys yn ffurflenni adolygiad blynyddol staff ac felly dylem weld gostyngiad parhaus yn nifer y staff nad ydynt wedi llenwi'r ffurflen eto. Rydym yn priodoli'r nifer uwch o staff sy'n rhugl a'r rhai nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg i gael darlun cywirach o sgiliau staff, oherwydd bod staff yn cwblhau'r wybodaeth ar ein systemau.

Mae ailstrwythuro darpariaeth wedi golygu bod Coleg Menai / Coleg Meirion Dwyfor wedi gweld cynnydd mewn nifer y staff gan fod yr holl ddarpariaeth Addysg Oedolion a Chymunedol y Grŵp o dan y colegau yma erbyn hyn.

Fel y soniwyd eisoes, mae gan y Grŵp gynlluniau datblygu gweithlu clir sy'n cynnwys datblygiadau yn ein Polisi Recriwtio a Rhaglen Dysgu Cymraeg Dwys ar gyfer staff.

3.6. Recriwtio a Swyddi Gwag Newydd Cedwir

Mae ein data recriwtio mewn blynyddoedd academiaidd, felly mae'n cwmpasu 01/09/23 - 31/08/24. Yn ystod y cyfnod hwn fe wnaethom reoli 316 o brosesau recriwtio. O'r rhain, hysbysebwyd 59 o swyddi (19%) fel rhai a oedd angen sgiliau deall Cymraeg rhugl. Hysbysebwyd 61 o swyddi (19%) fel rhai a oedd angen cwrteisi ieithyddol. Canolradd oedd y lefel iaith a defnyddiwyd fwyaf. Hysbysebwyd 130 o swyddi fel rhai a oedd angen sgiliau deall a siarad Cymraeg ar lefel Canolradd (41%). Defnyddiwyd diffiniadau ein polisi recriwtio lunio'r gofynion hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Grŵp yn defnyddio'r categorïau 'Dim angen sgiliau Cymraeg'.

Mae 'Polisi Recriwtio a Dethol Staff' (Medi, 2022) yn cryfhau ymrwymiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan wneud sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd, ond gan wahaniaethu rhwng y gwahanol sgiliau (dealltwriaeth, siarad a llythrennedd), a lefelau fel y bo'n briodol ar gyfer pob swydd.

Mae pob swydd a hysbysebir yn cynnwys elfennau hanfodol o sgiliau Cymraeg. Gall hyn gynnwys cyfuniad o sgiliau hanfodol a dymunol neu'r holl sgiliau hanfodol. Isod, ceir data ynglŷn â'r prosesau recriwtio a weithredwyd yn ystod y cyfnod adrodd 2023/24.

Lefel iaith *** Sgil	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Mynediad	Cwrteisi leithyddol	Dim wedi cofnodi	CYFANSWM
Siarad	59	130	15	48	61	3	316
Dealltwriaeth	59	130	17	45	62	3	316
Llythrennedd	58	128	16	48	63	3	316
CYFANSWM	176	388	48	141	186	9	

Yn ogystal â pholisi recriwito sydd yn rhoi sgiliau Cymraeg ar y blaen, mae gan y Grŵp raglen dysgu Cymraeg dwys ar gyfer staff. Mae hyn bellach yn rhan o'n polisi recriwtio ac yn cael ei chynnig pe tasai darpar gyflogeion â sgiliau Cymraeg is na'r hyn ofynnwyd amdanynt yn yr hysbyseb. Sefodd 5 unigolyn yr arholiad Mynediad CBAC ym mis Mehefin 2024 yn dilyn ein cwrs dysgu Cymraeg dwys cyntaf yn y Grŵp gyda phawb yn llwyddo. Derbyniwyd 2 gais gan yr adran Adnoddau Dynol, ymhle penodwyd unigolion â sgiliau iaith un lefel yn is na'r hyn a hysbysebwyd. Dechreuwyd 2 gwrs dysgu Cymraeg dwys, un ar lefel Mynediad ac un ar lefel Sylfaen ym mis Medi 2024. Bydd y dysgwyr hyn yn sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC yn ystod blwyddyn academiaidd 2024-25.

3.7. Hyfforddiant iaith Gymraeg i weithwyr

Maes Hyfforddiant	Nifer mynychu sesiynau Cymraeg	% mynychu sesiynau Cymraeg	Nifer mynychu Saesneg sesiynau iaith	Nifer sy'n mynychu sesiynau dwyieithog	% sy'n mynychu sesiynau dwyieithog
Recriwtio a chyfweld	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Rheoli perfformiad	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Y drefn cwyno a disgyblu	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Delio â'r cyhoedd	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Cynefino staff	N/A	N/A	N/A	23	100%
Iechyd a diogelwch	N/A	N/A	N/A	587	100%


3.8. Hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth iaith i weithwyr

Mae'r Grŵp wedi ymrwmo i gefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a darparu ystod o gyrsiau i staff trwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Mae'r dosbarthiadau hyn ar gael i staff yn ystod oriau gwaith. Mae gan staff yr opsiwn o fynychu gwersi 2 awr yr wythnos gyda thiwtor neu gwblhau cwrs hunan-astudio ar-lein. Mae cynllun Cymraeg Gwaith yn cyd fynd â'r flwyddyn academaidd pob blwyddyn a chesglir data yn unol â hynny. Cwblhawyd ein dysgwyr Mynediad dwys cyntaf eu cwrs yn ystod 2023/24 wedi iddynt ddechrau mis Ebrill 2023. Cwblhaodd 4 unigolyn y cwrs gyda phob un yn llwyddiannus wrth sefyll yr arholiad Mynediad CBAC. Roedd y niferoedd yn fychan gan ei fod yn fenter newydd, ond mae wedi profi'n fenter llwyddiannus. Bydd cwrs ar gael ar lefel Mynediad ac ar lefel Sylfaen yn ystod 2024/25. Bydd angen parhau i adolygu'r cyrsiau newydd hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff sy'n cael eu penodi i swyddi lle mae gwella'r Gymraeg yn amod y swydd yn mynychu'r gwersi a'n gwneud cynnydd priodol. Bydd angen i'r Panel Iaith hefyd adolygu'r drefn cyfeirio staff newydd o'r adran adnoddau dynol i'r adran ddwyieithrwydd.

	Medi 2023 - Gorffennaf 2024	
	Nifer y dosbarthiadau	Nifer ar y cwrs
Cyrsiau dan arweiniad tiwtor		
Mynediad 1	3	30
Mynediad 2	2	19
Sylfaen	1	8

Canolradd	2	10
Uwch	1	3
1: 1 (Tîm rheoli)	3	3
Cyrsiau hunan-astudio ar-lein		
Mynediad	1	7
Syflaen	1	1
Cwrs Cymraeg Dwys i Staff		
Mynediad	1	5
Cyfanswm	15	86

Mae adnodd e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith i staff y Grŵp bellach wedi'i ymgorffori i drefnau'r Grŵp. Mae'r adnodd yn cael ei gynnal ar safle Moodle y Grŵp ac mae'n rhan o hyfforddiant DPP gorfodol y Grŵp ar gyfer staff.



Mae'r adnodd yn cynnwys :

- Trosolwg o hanes y Gymraeg ac effaith yr hanes hwn ar yr iaith heddiw
 - Diweddariad ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg o ran polisiau, deddfwriaeth a strategaethau
 - Gwybodaeth am gefnogaeth gyda'r Gymraeg yn Grŵp Llandrillo Menai

Erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn, mae 63% o staff y Grŵp wedi cwblhau'r cwrs, cynnydd o 21% ers Awst 2023 (42% wedi'i gwblhau yn ystod cyfnod adrodd 2022-23).

3.9. Cwynion

Ni dderbyniodd y Grŵp unrhyw gwynion yn ymwneud â'n cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn 2023-24. Os derbynnir unrhyw gwynion, byddwn yn delio â nhw yn unol â'n polisi cwynion. Mae copi o'r polisi cwynion ar gael ar ein gwefan.

4. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r Grŵp yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac mae cynnwys yr adroddiad yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd gyda grwpiau o safonau ar draws sawl maes.

Mae ein proses archwilio mewnol bellach wedi'i sefydlu'n gadarn ac mae'n caniatáu i ni fonitro ac asesu ein lefel o gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, fel y nodir yn ein hysbysiad cydymffurfio. Mae'r broses hefyd yn ein galluogi i nodi unrhyw gamau unioni sydd eu hangen ac unrhyw ofynion hyfforddi a datblygu.

Mae'r Panel Iaith yn allweddol wrth arwain ar faterion cydymffurfio a sbarduno newid cadarnhaol yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Arweiniodd Panel Iaith yr adolygiad o Bolisi Recriwtio'r Grŵp gan edrych yn benodol ar ofynion sgiliau iaith Gymraeg pob swydd newydd er mwyn cryfhau ymrwymiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog. Mae'r broses hon wedi cynnwys ymgynghori manwl â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y polisi'n gadarn ac yn ymarferol. Mae'r polisi newydd yn weithredol ers mis Medi 2022 ac yn cael ei gefnogi gan raglen dysgu Cymraeg dwys newydd i staff. Mae'r Polisi Recriwtio newydd a'r rhaglen Gymraeg dwys ar gyfer staff yn cael ei fonitro gan y Panel Iaith ac mae adroddiadau cyson yn cael eu cyflwyno i'r Panel ar y nifer o staff sy'n mynychu'r cwrs dwys. Rydym yn y broses o symud o drefn gwneud cais am swydd drwy ebost (ffurflen gais PDF) i broses gwbl arlein. Mae'r broses hon wedi creu oedi yn yr ymarferoldeb o weithredu'r polisi recriwtio newydd ac felly bydd angen monitro'r sefyllfa yn ofalus er mwyn sicrhau bod swyddi yn cael eu hysbysebu a bod penodiadau yn cael eu gwneud yn unol â'r polisi.

Bydd y tîm datblygu dwyieithrwydd, gyda goruchwyliaeth y Panel Iaith, yn parhau i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth, a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i bob adran, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad diweddaraf bydd y ffocws yn 2024/25 ar:

1. Parhau i gynnal archwiliad mewnol blynyddol (dan ofal Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau)
2. Monitro a darparu cefnogaeth addas i ddysgwyr y Grŵp er mwyn eu hannog a'u galluogi i barhau i ddatblygu eu sgiliau cymraeg ac i gyflwyno'r gwaith asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Monitro gweithredu polisi recriwtio'r Grŵp, gan gynnwys cyfeiriadau at y tîm dwyieithrwydd ar gyfer gwersi Cymraeg dwys (dan ofal Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol)
4. Monitro gweithredu cwrs Cymraeg dwys ar gyfer staff (dan ofal Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau)
5. Adolygu deunydd marchnata, gyda phwyslais yn ystod y cyfnod nesaf ar y wefan newydd (dan ofal Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr)
6. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth iaith ar-lein
7. Cynnig diweddariad i Reolwyr y Grŵp ar ofynion cyfreithiol y Safonau iaith

8. Atgoffa holl staff o'u cyfrifoldebau unigol dan ofynnion y Safonau Iaith Gymraeg drwy ymgyrch cyfathrebu effeithiol Grŵp cyfan (dan ofal Tîm Polisi)
9. Cynhyrchu a dosbarthu cwrtyn gwddf/ laniard newydd i nodi sgiliau iaith staff a dysgwyr-siaradwr Cymraeg neu ddysgwr Cymraeg.

Atodiad 1

Safonau'r Gymraeg - Awdit Cydymffurfiaeth Fewnol 2023/24

Derbyniodd Grŵp Llandrillo Menai [Hysbysiad Cydymffurfio](#) gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg 29/09/2017. Mae'r hysbysiad cydymffurfio hwn yn amlinellu ein cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg. Cwblhawyd yr archwiliad mewnol hwn yn ystod y cyfnod Rhagfyr 2023 - Mawrth 2024, i wirio os yw'r Grŵp yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a allai fodoli.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r camau a gymerwyd, a'r ymatebion a gafwyd, yn ystod yr archwiliad mewnol.

Categori	Is-gategori	Gweithred a chanlyniad awdit mewnol	Gweithred
Gwasan aethau	Gohebiaeth	<p>E-bost</p> <p>Gyrrwyd e-bost Cymraeg ac e-bost Saesneg at 42 cyfeiriad e-bost y Grŵp.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd drwy Gymraeg a derbyniwyd ateb Cymraeg prydlon gan 15. • Cysylltwyd drwy Saesneg derbyniwyd ateb Saesneg gan 19. • Ni chafwyd ateb i'r neges Gymraeg na Saesneg gan 6 cyfeiriad e-bost ac felly fe yrrwyd neges arall. • Cysylltwyd drwy Gymraeg a derbyniwyd ateb Saesneg gan 2. 	<p>LJ wedi hysbysu'r rheolwr yn yr adran lle ni dderbyniwyd ymateb yn Gymraeg.</p> <p>LJ wedi cysylltu efo'r Rheolwr perthnasol i wirio'r e-byst a derbyniwyd ateb Saesneg.</p>
		<p>Ffurflen cysylltu ar-lein</p> <p>Anfonwyd neges yn Gymraeg trwy'r dudalen 'Cysylltwch â ni' ar y wefan a derbyniwyd ateb Cymraeg.</p> <p>Mae'r ffurflen hon yn cynnwys neges yn nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg.</p>	
		<p>Webchat</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd neges 'webchat' yn Gymraeg a derbyniwyd ateb yn Gymraeg. • Mae'r neges 'webchat' Cymraeg yn cynnwys testun Cymraeg ar y botwm dechrau sgwrs - "Cysylltu â ni" 	
	Galwadau ffôn	<p>Gwnaed 62 galwad ffôn Cymraeg i brif switsfyrdau ar draws y Grŵp.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyniwyd gwasanaeth Cymraeg ar bob achlysur. 	

Derbynfeydd	<p>Ymwelwyd â 9 safle fel rhan o'r awdit, ar bob achlysur cafwyd gwasanaeth Cymraeg ac roedd staff y derbynfeydd yn gwisgo laniard yn nodi eu bod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg.</p> <p>Ar un achlysur, nad oedd yr aelod o staff yn medru'r Gymraeg yn rhugl ond wedi ymateb yn egluro hyn a thrwy gynnig gwasanaeth Gymraeg gan aelod arall o staff- "Mae'n ddrwg gen i, dw i'n dysgu Cymraeg. Wyt ti eisiau siarad efo rhywun Cymraeg?"</p>	
Arwyddion	<p>Edrychwyd ar arwyddion mewn 7 safle.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Roedd arwyddion ar 4 safle yn gwbl ddwyieithog. ● Roedd arwyddion ar 2 safle yn ddwyieithog yn bennaf, er roedd rhai achosion lle roeddent yn Saesneg yn unig. ● Roedd arwyddion yn ddwyieithog ar un safle ond nodwyd sawl achos o bosteri ac arwyddion uniaith Saesneg, 	<p>LJ wedi cysylltu â'r Rheolwyr perthnasol i wirio'r poster. Rheolwyr yr adran wedi adrodd yn nôl i'r aelodau'r staff sydd yn berchen ar y poster i addasu'r poster. Mae'r poster Saesneg wedi'u tynnu a rhai dwyieithog yn ymddangos yn eu lle.</p>
Ffurflenni	<p>Edrychwyd ar 12 ffurflen ar-lein.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Roedd y 7 yn ddwyieithog, roedd y 5 arall ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn nodi hyn yn glir. Cewch ffurflenni Cymraeg ar wefan Cymraeg y Grŵp yn nodi bod fersiwn Saesneg o'r ffurflen ar gael ac yna ffurflen Saesneg ar y wefan Saesneg yn nodi bod fersiwn Cymraeg ar gael. 	
Cyhoeddusrwydd a marchnata	<p>Edrychwyd ar 26 datganiad i'r wasg ar wefan y Grŵp.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Roedd 25 ohonynt yn gwbl Gymraeg. ● Roedd un yn cynnwys Saesneg 	<p>LJ wedi cysylltu gyda'r Rheolwr Adran i ddatrys y problemau.</p>
Gwefan	<p>Edrychwyd ar dudalen wefan y Grŵp.</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Tudalen wefan y Grŵp yn gwbl ddwyieithog ● Tudalen y wefan y Grŵp yn rhoi dewis iaith cyn mynychu'r wybodaeth arno 	<p>LJ wedi cysylltu efo'r aelod o'r staff i roi'r dewis ieithyddol cyn mynd ymhellach ar y wefan</p>
Cyfryngau cymdeithasol	<p>Edrychwyd ar gyfrifon cymdeithasol swyddogol/corfforaethol ac adrannol o fewn y coleg.</p>	<p>LJ wedi cysylltu gyda pherchenog/ rheolwr yr un o'r cyfrifon cymdeithasol</p>

		<p>Adolygwyd 11 cyhoeddiad ar draws tri llwyfan gwahanol - X (Twitter), Facebook ac Instagram.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd bywgraffiadau dwyieithog gan 9, roedd 1 yn Saesneg yn unig. • Mae 11 o'r cyfrifon a adolygwyd wedi cyhoeddi yn ddwyieithog neu gyda chyhoeddiad ar wahan i'r Gymraeg a Saesneg a 1 yn Saesneg yn unig. • Roedd cywirdeb yr iaith Gymraeg yn gywir yn nhermau ystyr a mynegiant yn 11 o'r cyhoeddiadau. • Roedd y Gymraeg wedi cael ei gosod fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. • Roedd 2 o'r 11 o'r cyfrifon cymdeithasol ddim bodoli ddim mwy. 	<p>adrannol i'w hysbysu o'r Safonau a chynnig canllawiau a chefnogaeth</p> <p>LJ wedi adrodd i Reolwr bod 2 o'r 11 o'r cyfrifon ddim yn bodoli.</p>
	Digwyddiadau cyhoeddus	<p>Mynychwyd 12 digwyddiad cyhoeddus. Roedd popeth yn ddwyieithog o ran hyrwyddo'r digwyddiad, e.e. e-bost dwyieithog a datganiad i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu rhannu ar adran newyddion y Grŵp. Roedd ffrydiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo enillwyr gwobrau yn ddwyieithog.</p>	
Gweithredu	Penodi staff newydd	<p>Adolygwyd 12 swydd wag.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysebwyd pob un ohonynt yn Gymraeg ac roedd disgrifiad swydd ddwyieithog ar gael, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. • Mae'r ffurflen gais yn ddwyieithog ac yn cynnwys blwch i'r ymgeisydd ofyn am gyfweliad/asesiad yn Gymraeg. • Mae'r ffurflen gais yn gofyn am hunan asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr gan ofyn iddyn nhw nodi os ydynt â sgiliau Uwch, Canolradd, Sylfaenol, Mynediad neu Gwrteisi leithyddol ar gyfer Siarad, Dealltwriaeth a Llythrennedd 	
	Hyfforddiant staff	<p>Adolygwyd 10 o ddigwyddiadau hyfforddi ar STEPS, roedd 9 yn ddigwyddiad ar-lein a 1 yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd crynodeb o'r cwrs ar gyfer y 10 ohonynt yn ddwyieithog. • Ni nodwyd iaith yr hyfforddiant ar y 10 digwyddiad. • Nodwyd gwallau iaith ar un hysbyseb 	<p>SP wedi cysylltu â MN i ofyn am gynnwys iaith y cwrs yn yr hysbyseb.</p> <p>LJ wedi cysylltu â Rheolwr Datblygu Staff i ddiweddarau hyn.</p>
	Mewnrwyd staff	<p>Adolygwyd y systemau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Grŵp Portal • Grŵp Proffil (Negeseuon i'r Grŵp) • EDRAC i Ddysgwyr • EDRAC i Staff • Proactis • My View • Onefile • Hwb Lles Dysgwyr 	<p>LJ wedi cysylltu gydag adran TG er mwyn cyfieithu rhai termau o'r Gymraeg i'r Saesneg ar My View/</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau Astudio a Chymorth TG <p>Roedd 2 o'r systemau yn uniaith Saesneg. Roedd 7 arall ar gael yn Gymraeg neu'n rhannol yn Gymraeg ond doedd y Gymraeg ddim bob amser yn gywir ac yn cynnwys nifer o eiriau Saesneg heb eu cyfieithu.</p>	
Llunio Polisi	Penderfyniad au a dogfennau polisi	<p>Adolygwyd 6 polisi sydd wedi cael eu cyhoeddi ar Y Porth ar hap.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd pob un o'r 6 polisi ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. • Roedd pob un o'r 6 polisi gyda'r teitl Cymraeg ar yr ochr Cymraeg o'r Porth. • Roedd pob un o'r 6 polisi gydag asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg wedi'i gwblhau. 	Parhau i adolygu polisiau ar y gweill.